


# Cyfle i gyfarfod Tîm Gofal – Micro newydd Sir y Fflint a gweld beth fyddant yn ei wneud

Carai Cyngor Sir y Fflint gyflwyno eu Tîm Gofal-Micro newydd, Marianne Lewis a Rob Loudon, sydd wedi cael y cyfrifoldeb o redeg prosiect peilot o fewn gofal cymdeithasol. Nod y prosiect yw hyrwyddo gofal cymdeithasol fel dewis gyrfa a chynorthwyo i ddatblygu mentrau gofal bychain er mwyn cefnogi pobl agored i niwed ar draws Sir y Fflint.

**Beth ydy mentrau gofal bychain?** Busnesau bach yw mentrau gofal bychain, yn amrywio o unig fasnachwyr i fusnesau sy'n cyflogi 5 o unigolion, sy'n cynnig gofal hyblyg ac wedi'i bersonoli a gwasanaethau cynnal i bobl agored i niwed, wedi'i deilwra i'w hanghenion unigol.

**Pam mai prosiect peilot yw hwn, gan bod Asiantaethau Gofal neu Gynorthwywyr Personol wedi bod o gwmpas ers blynyddoedd?** Yn Sir Fflint mae gennym nifer o asiantaethau a chynorthwywyr personol sy'n cefnogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain, fodd bynnag mae diffyg cenedlaethol o ran gofalwyr sydd ar gael er mwyn bodloni'r gofal cynyddol am ofal. Gobeithiwn y bydd y model newydd hwn o ofal yn apelio i bobl sydd eisiau mwy o hyblygrwydd a rheolaeth yn eu gwaith.

Mae mentrau gofal bychain yn gysyniad newydd. Y nod yw annog pobl i ddod yn ofalwyr-micro, a bod y bobl hynny un ai:

- Â diddordeb darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl, ond nad oes ganddynt unrhyw brofiad
- Yn gweithio yn y sector gofal ar hyn o bryd ond â diddordeb gweithio i'w hunain
- Cefnogi pobl yn eu cymunedau lleol
- Eisiau gwneud rhywbeth i gefnogi eraill ac i wneud gwahaniaeth

Bydd y Tîm Gofal-Micro yn gweithio gydag unigolion i:

- Eu cefnogi i ddatblygu eu busnes neu syniad
- Darparu gwybodaeth am hyfforddiant, cyllid a chefnogaeth ac adnoddau eraill sydd ar gael
- Cefnogi unigolion i ddatblygu a darparu gwasanaeth o ansawdd yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau cyfredol Llywodraeth Cymru
- Darparu cysylltiadau â rhwydwaith o ddarparwyr mentrau gofal bychain eraill ar gyfer cefnogaeth gan gymheiriaid

Gallai gwasanaethau gofal-micro gynnwys:

- Gofal personol uniongyrchol yn y cartref
- Seibiant i ofalwyr
- Prydau bwyd neu glybiau cinio
- Cyfleoedd i wneud ymarfer corff a gweithgareddau cymdeithasol
- Cysylltu â gweithgareddau cymunedol
- Gwasanaethau glanhau / cerdded cŵn

**Felly dyma'r cwestiwn pwysig:** Ydych chi'n adnabod rhywun allai fod â diddordeb neu efallai eich bod yn meddwl y gallech chi helpu i gefnogi pobl yn eich cymuned leol, os felly cysylltwch â Marianne neu Rob ar 01352 702126 neu 01352 702461 am sgwrs.